

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 10 Mawrth 2025	0300 200 6565
Amser: 14.00	Deisebau@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 36)

2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1489 Deddfu i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu gosod ym mhob adeilad newydd yng Nghymru

(Tudalennau 37 – 43)

2.2 P-06-1507 Rydym yn galw ar Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Llywodraeth Cymru i greu cynllun hyfyw a chynaliadwy ar gyfer dyfodol hirdymor campws Llambod

(Tudalennau 44 – 53)

2.3 P-06-1508 Cyfyngu cynghorau Cymru i gynnydd o hyd at 2% ar y dreth gyngor bob blwyddyn, gan ddechrau ym mis Ebrill 2025

(Tudalennau 54 – 62)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1365 Ail-agor llinellau rheilffordd i gysylltu gogledd a de Cymru

(Tudalennau 63 – 65)

3.2 P-06-1380 Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes

(Tudalennau 66 – 84)

3.3 P-06-1400 Adnoddau Teg a Digonol ar gyfer Practisau Cyffredinol yng Nghymru

(Tudalennau 85 – 91)



- 3.4 P-06-1425 Gofynnwn i Lywodraeth Cymru wyrddroi ei phenderfyniad i atal bysiau T2 rhag galw yng Ngarndolbenmaen
(Tudalennau 92 – 93)
- 3.5 P-06-1435 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i roi sgrinio canser yr ysgyfaint wedi'i dargedu ar waith
(Tudalennau 94 – 97)
- 3.6 P-06-1453 Darparu cyllid a chymorth ar gyfer darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus hygyrch a glân.
(Tudalennau 98 – 103)
- 3.7 P-06-1479 Stopio cadw plant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth mewn ysbytai.
(Tudalennau 104 – 107)
- 3.8 P-06-1480 Gwneud y menopos yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer pob myfyriwr y gwyddorau gofal iechyd a meddygaeth.
(Tudalennau 108 – 116)
- 3.9 P-06-1486 Rhoi statws ffioedd cartref i fyfyrwyr o Hong Kong sydd â fisa Dinasyddion Prydeinig (Tramor) ar ôl tair blynedd o breswyllo
(Tudalennau 117 – 121)

Bydd y ddwy ddeiseb a ganlyn yn cael eu grwpio gyda'i gilydd i'w hystyried

- 3.10 P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru
(Tudalennau 122 – 123)
- 3.11 P-06-1354 Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru
(Tudalennau 124 – 130)
- 3.12 P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion
(Tudalennau 131 – 133)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-06-1489: Deddfu i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu gosod ym mhob adeilad newydd yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Mawrth 2025
Petitions Committee | 10 March 2025

Cyfeirnod: SR24/10372-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1489

Teitl y ddeiseb: Deddfu i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu gosod ym mhob adeilad newydd yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb:

Gwennoliaid duon yw'r adar cyflymaf wrth hedfan yn wastad a gallant gysgu, bwyta, yfed a pharu ar yr adain. Eu cri yw sŵn yr haf Cymreig. Yn anffodus, mae eu niferoedd yn gostwng yn gyflym – i lawr 72 y cant yn y 30 mlynedd diwethaf. Mae gwenoliaid duon yn nythu mewn tyllau mewn adeiladau. Mae gwaith adnewyddu'n amddifadu'r adar o'u cartrefi, ac nid oes ceudodau i'w cael mewn adeiladau newydd ar hyn o bryd. Heb fwy o opsiynau ar gyfer nythu, bydd gwenoliaid duon yn diflannu. Byddai ymgorffori briciau gwenoliaid duon ym mhob datblygiad newydd yn helpu gydag adferiad gwenoliaid duon (ac adar eraill sydd mewn trafferthion, megis gwenoliaid y bondo ac adar y to).

Mae data Ymddiriedolaeth Adareg Prydain yn dangos gostyngiad o 72 y cant yn niferoedd gwenoliaid duon Cymru rhwng 1995 a 2018. Maent ar y Rhestr Goch fel Adar o Bryder Cadwraethol. Mae gwenoliaid duon yn wynebu llawer o heriau, ond mae colli safleoedd nythu yn ffactor mawr. Oherwydd maint y dirywiad yng Nghymru, a dinistriad parhaus eu safleoedd nythu diymgeledd, dim ond dull gorfodol fydd yn sicrhau digon o leoedd nythu newydd fel y gall



niferoedd gwenoliaid duon ddychwelyd i rywbeth tebyg i'w lefelau blaenorol. Ar gyfer hyn mae angen newid rheoliadol neu ddeddfwriaethol.

Mae briciau gwenoliaid duon yn flychau nythu y gellir eu hadeiladu i mewn i wal. Mae ganddynt safon y BSI, ac maent yn fforddiadwy, yn gynaliadwy, ac yn hawdd eu gosod. Nid oes angen eu cynnal na'u hamnewid, ac maent yn helpu i wrthdroi dirywiad adar eraill sy'n nythu mewn tyllau.

Mae bywydau gwenoliaid duon wedi'u cyplysu â'n bywydau ni ers canrifoedd. Mae cysylltiad yr aderyn hwn ag adeiladau i'w weld mewn hen enw amdano – gwrach yr eglwys. Mae gwenoliaid duon yn rhywogaeth garismatig; maent yn bywiogi ardaloedd adeiledig, gan ysbrydoli pobl a chymunedau. Maen nhw'n dibynnu arnom ni - byddai eu diflaniad yn golled wirioneddol.

1. Cefndir

Aderyn awyrol sy'n bwydo ar infertebratau bach ac yn aml yn nythu mewn adeiladau ar lefel to wrth fagu cywion yw'r wennol ddu (*Apus apus*). Mae gwenoliaid duon yn ymfudwyr haf i'r DU, gan dreulio eu gaeafau yn Affrica.

Fel y mae'r deisebydd yn nodi, mae niferoedd y gwenoliaid duon wedi gostwng yn aruthrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf - **62% rhwng 1995 a 2021**. Gosododd Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BTO) y gwenoliaid duon ar **Restr Goch y DU ar gyfer adar** yn 2021 oherwydd dirywiad cynyddol yn y boblogaeth fridio.

Dywed y'r RSPB o ran briciau gwenoliaid duon:

The bricks are an easy and cheap way to provide nest sites for Swifts that can be simply included in new housing developments or fitted into existing buildings. When they are, research shows they are help not only for Swifts, but other wildlife, including Red Listed species such as House Sparrows, Starlings and House Martins.

Cafodd deiseb i Senedd y DU, â'r teitl '**Make swift bricks compulsory in new housing to help red-listed birds**' 109,896 o lofnodion a chynhaliwyd **dadl yn Neuadd San Steffan** arni ar 10 Gorffennaf 2023.

Ymatebodd Llywodraeth y DU ar y pryd gan ddweud na fyddai'n deddfu i'w gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr neu awdurdodau lleol ddefnyddio briciau gwenoliaid duon ym mhob datblygiad. Dywedodd:

We welcome actions by developers to provide “swift bricks”, however Government considers this a matter for local authorities depending upon the specific circumstances of each site.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, wedi ysgrifennu at y Pwyllgor mewn cysylltiad â'r ddeiseb hon.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud ei fod yn deall bod briciau gwenoliaid duon yn gweithio ac yn darparu cyfleoedd i rywogaethau eraill. Mae'n dweud eu bod yn fforddiadwy, nad oes angen gwaith cynnal a chadw arnynt ac “mae'n gwneud synnwyr i'w cynnwys yn rhan o strwythur adeiladau newydd wrth fynd ati i'w dylunio a'u hadeiladu”.

Fodd bynnag, mae'n nodi mai'r prif fecanweithiau i hyrwyddo neu orfodi'r defnydd o friciau gwenoliaid du mewn adeiladau newydd yw'r Rheoliadau Adeiladu a'r system gynllunio. Mae'r rhain yn dod o dan bortffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS. Mae hefyd yn nodi gwaith adeiladu a ariennir neu a gaffaelwyd gan Lywodraeth Cymru fel mecanwaith pwysig arall. Daw i'r casgliad:

Felly, bydd angen gweithredu ar draws y Cabinet i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu cynnwys mewn adeiladau newydd ledled Cymru. Rwy'n cefnogi hynny ac rwy'n awyddus i archwilio'r mater gyda fy nghydweithwyr yn y Cabinet.

Yn ei lythyr, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru y mae'n credu y bydd yn cefnogi gwenoliaid duon a rhywogaethau eraill, gan gynnwys:

- Bydd y Bil Llywodraethu Amgylcheddol, Egwyddorion Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth arfaethedig yn cynnwys pŵer a dyletswydd i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth domestig statudol. Mae'n dweud bod y meysydd blaenoriaeth bwriedir rhoi blaenoriaeth iddynt, sef diogelu ac adfer rhywogaethau, a sicrhau bod ecosystemau'n wydn, yn golygu y bydd potensial ar gyfer gweithredu i gefnogi poblogaethau gwenoliaid duon.
- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau ychwanegol ar sut i weithredu er Budd Net i Fioamrywiaeth a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n gofyn am atebion pwrpasol, yn seiliedig ar

le ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys mesurau fel briciau gwenoliaid duon lle bo'n briodol. Mae'n dweud y dylai'r canllawiau gael eu cwblhau erbyn gwanwyn 2025.

3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Codwyd mater mandadu bocsys gwenoliaid duon yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Mehefin 2021 gan Jenny Rathbone AS. Ymatebodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James AS, drwy ddweud bod Llywodraeth Cymru yn eu hymgorffori yn ei Rhaglen Tai Arloesol, gyda briciau gwenoliaid duon cyflym "yn mynd i fyny ar nifer o dai cymdeithasol ledled Cymru". Dywedodd hefyd fod y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Lee Waters AS, yn "edrych ar fioamrywiaeth ar hyd llwybrau ffyrdd a llwybrau rheilffyrdd, gan gynnwys ymgorffori blychau gwenoliaid duon a blychau nythu eraill fel y bo'n briodol ar hyd y llwybrau hynny."

Mewn ymateb i gwestiwn gan Jenny Rathbone MS yn Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr 2024, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, Jayne Bryant AS, fod briciau gwenoliaid duon wedi'u cynnwys yn y datblygiadau a ariannwyd o dan y Rhaglen Tai Arloesol, o'r dyddiad y cytunodd y Gweinidog blaenorol i wneud hynny nes i'r rhaglen honno ddod i ben. Ymrwymodd hefyd i ystyried mandadu briciau gwenoliaid du mewn tai cymdeithasol yn y dyfodol:

Mae ein safon adeiladu tai cymdeithasol newydd, gofynion ansawdd datblygu Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau ystyried bioamrywiaeth, sydd wedi golygu bod briciau gwenoliaid yn cael eu defnyddio gan lawer o landlordiaid cymdeithasol yn eu datblygiadau newydd. Mae disgwyl i ofynion ansawdd datblygu Cymru gael eu hadolygu yn 2025, a byddwn yn ystyried y defnydd gorfodol o friciau gwenoliaid fel rhan o'r adolygiad hwn.

Jenny Rathbone AS yw hyrwyddwr rhywogaethau Cyswllt Amgylchedd Cymru ar gyfer y gwenoliaid duon.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1489
Ein cyf/Our ref HIDCC/10772/24, HIDCC/00010/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

19 Chwefror 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ynglŷn â'r ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu gosod ym mhob adeilad newydd yng Nghymru. Fel Ysgrifennydd y Cabinet â chyfrifoldeb arweiniol dros fioamrywiaeth, rwy'n ysgrifennu i amlinellu fy safbwyntiau am y materion dan sylw a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu codi.

Rwy'n ymwybodol o'r ddeiseb hon a'r gefnogaeth y mae wedi'i chasglu. Rwy'n cydnabod bod niferoedd y gwenoliaid duon, fel llawer o'n rhywogaethau yng Nghymru, wedi bod yn dirywio ar raddfa frawychus. Fel llywodraeth, rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, ac yn gwybod bod angen i ni, ynghyd â gweddill y DU a'r byd, wneud mwy i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cydweithio i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd.

Rwy'n deall bod astudiaethau'n dangos bod briciau gwenoliaid duon yn gweithio, a'u bod hefyd yn cynnig cyfleoedd i rywogaethau eraill. Maent yn fforddiadwy, nid oes angen gwneud gwaith cynnal a chadw arnynt ac mae'n gwneud synnwyr i'w cynnwys yn rhan o strwythur adeiladau newydd wrth fynd ati i'w dylunio a'u hadeiladu.

Nid yw'r prif ysgogiadau i hyrwyddo neu fandadu'r defnydd o friciau gwenoliaid duon mewn adeiladau newydd yn rhan o fy mhortffolio i. Gellid, er enghraifft, eu hyrwyddo drwy'r rheoliadau cynllunio ac adeiladu, ond hefyd drwy'r gwaith adeiladu yr ydym yn ei ariannu neu'n ei gaffael mewn rhannau eraill o'r llywodraeth. Felly, bydd angen gweithredu ar draws y Cabinet i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu cynnwys mewn adeiladau newydd ledled Cymru. Rwy'n cefnogi hynny ac rwy'n awyddus i archwilio'r mater gyda fy nghydweithwyr yn y Cabinet.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallai briciau gwenoliaid duon helpu i hybu eu niferoedd, ond mae angen gweithredu'n ehangach mewn amrywiaeth o feysydd i frwydro yn erbyn yr hyn sy'n sbarduno'r dirywiad yn nifer y gwenoliaid duon. Mae'n cynnwys ffactorau fel yr 'apocalyps pryfed' (sy'n digwydd oherwydd bod cynefinoedd yn cael eu colli, oherwydd plaladdwyr amaethyddol a ffactorau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd), canlyniadau ehangach y newid yn yr hinsawdd, yma ac yn eu tiroedd gaeafu yn Affrica sydd wedi effeithio ar iechyd a llwyddiant y rhywogaeth hon wrth fridio. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod hafau oerach a gwlypach yn chwarae rhan allweddol, gan fod cysylltiad cadarnhaol rhwng llwyddiant wrth fridio a thymheredd cynhesach ym misoedd Mehefin a Gorffennaf.

Un rhan allweddol o'r camau ehangach yr ydym yn eu cymryd i gefnogi gwenoliaid duon a rhywogaethau eraill yw'r Bil Llywodraethu Amgylcheddol, Egwyddorion Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth. Bydd y Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, ac yn gosod dyletswydd arnynt i bennu targedau statudol ar fioamrywiaeth ddomestig. Er bod manylion y targedau eto i'w datblygu, mae'r meysydd y bwriedir rhoi blaenoriaeth iddynt, sef adfer rhywogaethau, a sicrhau bod ecosystemau'n wydn, yn golygu y bydd potensial inni gymryd camau pellach i gefnogi poblogaethau gwenoliaid duon. Bydd y camau yr ydym yn eu cymryd drwy'r Bil, y Rhaglen Rhwydweithiau Natur a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd hefyd yn hanfodol bwysig er mwyn cynyddu poblogaethau gwenoliaid duon drwy fynd i'r afael â'r ffactorau ehangach sy'n cyfrannu at ddirywiad rhywogaethau.

Yn ogystal â'r rhaglenni gwaith hyn, mae fy swyddogion hefyd wedi bod yn gweithio gyda swyddogion cynllunio i ddatblygu canllawiau ychwanegol ar sut i weithredu er Budd Net i Fioamrywiaeth. Mae'r dull hwn yn cael ei amlinellu ym Mholisi Cynllunio Cymru ac mae'n gofyn am atebion pwrpasol, seiliedig ar le, er mwyn diogelu bioamrywiaeth, gan gynnwys mesurau fel briciau gwenoliaid duon pan fo hynny'n briodol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yn rhaid wrth gyngor ecolegol proffesiynol, a fydd yn amrywio gan ddibynnu ar y cyd-destun, er mwyn dod o hyd i'r atebion cywir. Dylai'r canllawiau hyn fod wedi'u cwblhau erbyn gwanwyn 2025.

Diolch ichi unwaith yn rhagor am eich llythyr, ac rwy'n gobeithio y bydd fy ymateb o gymorth ichi. Fel rhan o'm gwaith ehangach, byddaf yn hapus i hyrwyddo'r defnydd o friciau gwenoliaid duon yn fy mhortffolio. ac i annog eraill i wneud hynny ar draws y llywodraeth. Fel llawer o faterion sy'n ymwneud â'r argyfyngau natur a newid hinsawdd mae'r atebion yn golygu bod angen inni weithredu mewn ffordd integredig ar draws y llywodraeth.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

P-06-1489 Legislate to ensure swift bricks are installed in all new buildings in Wales
Correspondence from the Petitioner, 27th February 2025

Dear Petitions Committee members

SWIFT BRICK PETITION

Thank you for giving me the opportunity to respond to the Deputy First Minister's letter. The following are my comments -

Swifts are Wales' fastest declining birds and need help now.

In about 2 months, they will arrive back in Wales. Many will find their longstanding nest sites blocked off – and they will struggle to find others. This is because of refurbishments to existing buildings and the lack of provision in new builds.

Whilst climate change and biodiversity loss are very likely playing a part in swifts' decline, the loss of nest sites is a critical and growing issue. It can be observed in areas where, for example, streets have been fitted with plastic soffits, causing whole colonies of swifts to be made homeless. Without swift bricks, the decline in swift numbers will continue, irrespective of climate change and biodiversity improvements.

It seems that there is no opposition to swift brick provision – the RSPB point to the fact that more than 20 large house-builders in England and Wales already support them. As do Wildlife Trusts Wales and RSPB Cymru. There is also growing public support - the swift network in Wales comprises members of the public taking positive action for swifts, such as awareness raising and installing swift bricks and nest boxes.

Swift bricks are cheap, easily and quickly installed and need no maintenance. There is already British Standards Institution guidance on the selection and siting of swift bricks in new builds – '*BS42021: 2022 Integral nest boxes. Selection and installation for new developments – Specification*', so additional ecological expertise re. their installation is not required.

The installation of swift bricks is currently patchy and relies on voluntary action by local authorities or developers. Provision of swift bricks must be mandated. Without this, it is highly unlikely that swift brick provision will be undertaken at the scale that is required to halt swift numbers decreasing further – let alone reversing this decline.

I welcome the Deputy First Minister's commitment to this issue. However, without a clear timetable for action, my concern is that this issue will not be addressed quickly, if at all, and will not be mandated. Swifts are disappearing from our cities, towns and villages now.

I would welcome the views of the Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning on the issue of mandating swift bricks in new builds. I would also welcome understanding how and when Welsh Government will adopt a cross-Cabinet approach to resolve this issue, including setting a deadline for making a decision.

Yours faithfully

Julia Barrell (Petitioner)

Campws Llanbedr Pont Steffan

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Mawrth 2025
Petitions Committee | 10 March 2025

Cyfeirnod: SR25/10747

Rhif y ddeiseb: P-06-1507

Teitl y ddeiseb: Rydym yn galw ar Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Llywodraeth Cymru i greu cynllun hyfyw a chynaliadwy ar gyfer dyfodol hirdymor campws Llanbedr

Geiriad y ddeiseb: Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi cyhoeddi cynllun i ddod â'r holl addysgu israddedig ar ei champws yn Llanbedr Pont Steffan i ben erbyn mis Medi 2025, sef penderfyniad a fyddai'n dileu bron i 200 mlynedd o ran rôl Llanbedr Pont Steffan fel canolfan addysg uwch, ac yn effeithio'n andwyol ar y gymuned leol. Fel cyn-fyfrwyr, myfyrwyr, a chefnogwyr, rydym yn galw ar Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Llywodraeth Cymru i ddiogelu etifeddiaeth Llanbedr Pont Steffan, ac ymrwymo i ddyfodol cynaliadwy ar gyfer y campws hanesyddol hwn.

Mae Llanbedr Pont Steffan nid yn unig yn sefydliad prifysgol hynaf Cymru ond hefyd yn biler yn ei hanes addysgol a diwylliannol. Drwy ganiatáu i addysgu israddedig ddod i ben, byddai Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn tanseilio hanfod cenhadaeth Llanbedr Pont Steffan, yn gwanhau'r economi leol, ac yn dileu ei rôl hanesyddol fel canolfan ddysgu. Mae tref Llanbedr, cymuned y cyn-fyfrwyr, a phobl Cymru yn haeddu gwell.

Ein nod: Rydym yn annog Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Llywodraeth Cymru i atal y terfyn arfaethedig ar addysgu israddedig yn Llanbedr Pont



Steffan, ac yn lle hynny i weithio gyda'r holl randdeiliaid i greu cynllun hyfyw a chynaliadwy ar gyfer y campws. Rhaid i hyn gynnwys buddsoddiad sylweddol mewn cyrsiau newydd, mewn marchnata, ac mewn ymdrechion i recriwtio myfyrwyr er mwyn sicrhau perthnasedd ac apêl Llanbedr Pont Steffan ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

1. Y cefndir

Sefydlwyd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan ym 1822 fel Coleg Dewi Sant. Ym 1996 newidiwyd yr enw i Brifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan. Yn 2010, unwyd â Choleg Prifysgol y Drindod yng Nghaerfyrddin i greu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Yn 2013, unwyd Prifysgol Fetropolitan Abertawe â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae tri champws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, Caerfyrddin ac Abertawe.

Ar 23 Ionawr 2025, cyhoeddodd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant y byddai'n symud cyrsiau'r dyniaethau o Lanbedr Pont Steffan i gampws Caerfyrddin. Byddai hyn yn dod i rym ym mis Medi 2025. Ni fydd unrhyw ddarpariaeth a addysgir yn weddill ar gampws Llanbedr Pont Steffan, a bydd myfyrwyr yn cwblhau eu rhaglen yng Nghaerfyrddin.

Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn datgan y byddai angen tua 1,250 o fyfyrwyr amser llawn ar y campws i gynnal darpariaeth ar raddfa campws Llanbedr Pont Steffan. Mae 92 o fyfyrwyr y dyniaethau ar gampws Llanbedr Pont Steffan.

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ar 4 Rhagfyr, dywedodd Vikki Howells AS, y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, yn y Cyfarfod Llawn ei bod yn cydnabod “y pryder y gallai'r cyhoeddiad hwn gael effaith negyddol ar yr economi leol, yn enwedig canol y dref yn Llanbedr Pont Steffan, a bydd Gweinidogion Cymru [...] yn parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r brifysgol wrth i gynlluniau ddatblygu”.

Nododd y Gweinidog hefyd fod “prifysgolion yng Nghymru yn sefydliadau ymreolaethol, ac ni fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru ymyrryd yn eu materion academiaidd, megis darpariaeth cyrsiau a lleoliad eu campws”. Ychwanegodd fod y brifysgol “yn ymateb yn strategol i heriau i ddiogelu cyrsiau dyniaethau yn eu sefydliad” ac “mai dim ond 92 o israddedigion amser llawn sydd yn Llanbedr Pont

Steffan bellach, sy'n llai na'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd Cymru, felly mae angen inni fod yn realistig am y sefyllfa y mae'r brifysgol yn ei hwynebu".

Wrth ateb cwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Chwefror 2025, dywedodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch:

Mae diwygio eisoes ar y gweill yng Nghymru gyda deddfwriaeth newydd ar waith a chreu Medr [y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil], ac rwyf am wneud y gorau o'r cyfle arwyddocaol hwn i drawsnewid y sector trwy siarad â chymaint o bobl â phosibl. Rwyf wedi gwahodd pob is-ganghellor i gyfarfod bord gron yn yr wythnos ar ôl y toriad am fwy o drafodaethau am yr heriau presennol sy'n wynebu'r sector.

Mewn datganiad ysgrifenedig ar 18 Chwefror 2025, cyhoeddodd y Gweinidog:

Er mwyn cefnogi ein prifysgolion, rwyf eisoes wedi cynyddu'r cap ffioedd dysgu ar gyfer 2025/26, gan ddarparu hyd at £21.9m mewn incwm ychwanegol i brifysgolion, ac rwyf hefyd wedi darparu £10m yn ychwanegol mewn cyllid grant i'r sector. I gydnabod yr heriau ariannol sylweddol y mae addysg uwch yn eu hwynebu, rwy'n falch o gyhoeddi heddiw y bydd gwerth £18.5m o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd yr arian ychwanegol hwn yn cefnogi prifysgolion gyda chynnal a chadw ystadau a phrosiectau digidol i leihau costau gweithredu, tra hefyd yn gwella cynaliadwyedd amgylcheddol a sicrhau bod cyfleusterau'n parhau i fod yn addas ar gyfer darparu profiad o'r radd flaenaf i fyfyrwyr a chyflawni ymchwil cwbl arloesol. Rwyf hefyd wedi gofyn i Medr adrodd yn ôl i mi ar sut mae'r cyllid hwn wedi'i ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl i gyflawni arbedion at y dyfodol i leddfu'r heriau ariannol presennol.

3. Sefydliadau Addysg Uwch eraill yng Nghymru

Mae nifer o brifysgolion eraill yng Nghymru yn y broses o ymgynghori ar doriadau i staff a chysiau yng nghyd-destun pwysau ariannol cynyddol.

Ar 28 Ionawr 2025, fe wnaeth Prifysgol Caerdydd ddechrau ymgynghoriad ar y toriad arfaethedig o 400 o staff academiaidd (cyfwerth ag amser llawn) (7 y cant o'r holl weithlu) a'r posibilrwydd o gau ysgolion a phynciau, ac uno ysgolion. Roedd y cynigion yn cynnwys:

- terfynu pynciau a rhaglenni mewn Hanes yr Henfyd, leithoedd Modern a Chyfieithu, Cerddoriaeth, Nyrsio, a Chrefydd a Diwinyddiaeth;
- cynyddu cymarebau myfyrwyr a staff ledled y Brifysgol, wrth adolygu agweddau at ddysgu, addysgu ac asesu, a symleiddio prosesau biwrocraidd; a
- chreu Ysgol y Gwyddorau Naturiol; Ysgol Gwyddor Data, Cyfrifiadura a Mathemateg; Ysgol y Gwyddorau Dynol a Chymdeithasol; ac Ysgol y Dyniaethau Byd-eang drwy uno amryw gyrsiau cyfredol.

Ar 19 Chwefror 2025, cyhoeddodd Prifysgol De Cymru ymgynghoriad ar gau 'nifer fach' o'u cyrsiau ar ôl i'r holl fyfyrwyr presennol gwblhau eu hastudiaethau a gostyngiad o oddeutu 90 o rolau (tua 3 y cant o gyfanswm y gweithlu). Nid oes rhagor o fanylion ar gael ar hyn o bryd am y meysydd y bydd hyn yn effeithio arnynt.

Hefyd ar 19 Chwefror 2025, dywedodd Prifysgol Bangor wrth staff mewn e-bost mai ei nod yw torri tua 200 o swyddi (tua 10 y cant o gyfanswm y gweithlu) i wneud arbedion o £15m.

4. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ar hyn o bryd mae dwy ddeiseb yn agored mewn perthynas â thoriadau i brifysgolion yng Nghymru. Mae'r ddwy yn ymwneud â Phrifysgol Caerdydd ac mae'r ddwy wedi pasio'r nifer o lofnodion sydd eu hangen i'r Pwyllgor Deisebau eu trafod:

- Helpu Prifysgol Caerdydd i gadw ei chysiau gradd leithoedd Modern
- Galluogi Prifysgol Caerdydd i gadw'r cwrs gradd Nyrsio

Ar 17 Chwefror 2025, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Lywydd ac Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd, yr Athro Wendy Lerner, yn ei gwahodd i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor unwaith y bydd yr ymgynghoriad ar ailstrwythuro wedi dod i ben.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf P-06-1507
Ein cyf VH/00053/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

25 Chwefror 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch Deiseb P-06-1507 mewn perthynas â chynlluniau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) i adleoli ei darpariaeth Dyniaethau o'i champws yn Llanbedr Pont Steffan i'w champws yng Nghaerfyrddin. Rwy'n ateb gan fod y mater hwn yn rhan o'm portffolio i.

Mae hwn yn gyfnod anodd i'r sector addysg uwch yng Nghymru ac ar draws y DU, wrth i sefydliadau addysg uwch wynebu pwysau ariannol ac angen dod o hyd i ffyrdd o ymateb i'r heriau hyn.

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gynigion i ail-lunio ei darpariaeth ar gampws Llambod. Roedd y cynigion hyn yn cynnwys symud darpariaeth Dyniaethau'r Brifysgol i'w champws yng Nghaerfyrddin. Barn y Brifysgol yw nad yw darpariaeth Llanbedr Pont Steffan yn gynaliadwy. Ystyrir bod symud i Gaerfyrddin yn strategol, gan ganiatáu cymysgedd o'r Dyniaethau â disgyblaethau eraill (gyda'r bwriad o adfywio portffolio'r Dyniaethau), a chynnig profiad mwy bywiog i fyfyrwyr.

Ysgrifennodd Is-Ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yr Athro Elwen Evans KC, ataf ar 23 Ionawr i gadarnhau bod y Brifysgol wedi cymeradwyo'r cynnig i adleoli ei darpariaeth Dyniaethau o Lanbedr Pont Steffan i Gaerfyrddin, yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol ag undebau llafur a'r staff yr effeithir arnynt. Rwyf wedi cael gwybod bod y Brifysgol yn cychwyn ar baratodau ac ystyriaethau ymarferol ar gyfer y newid hwn sydd i ddod, er mwyn sicrhau cyfnod pontio esmwyth fel bod darpariaeth y Dyniaethau yn dechrau'r flwyddyn academiaidd yn ei chartref newydd yng Nghaerfyrddin ym mis Medi 2025.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vikki.Howells@llyw.cymru
Correspondence.Vikki.Howells@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Rwy'n cydnabod yr effaith y gallai'r cynlluniau hyn ei chael ar staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, fel sefydliad ymreolaethol, mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gyfrifol am ei materion academaidd ei hun, gan gynnwys rheolaeth strategol o'i hystâd. Ni fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn materion sy'n ymwneud â darparu cyrsiau a lleoliad y campws.

Rwy'n deall bod y staff a'r myfyrwyr yn cael eu cefnogi. Rwyf wedi ei gwneud yn glir i'r Brifysgol fy mod yn disgwyl gweld egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn cael eu gweithredu yn ogystal â chefnogi myfyrwyr sydd wedi'u lleoli yn Llanbedr Pont Steffan i barhau â'u hastudiaethau, gan sicrhau'r amhariad lleiaf tra bo'r cynlluniau hyn yn cael eu gweithredu. Mae gan y Brifysgol wasanaethau cymorth ar waith i staff a myfyrwyr yr effeithir arnynt er mwyn iddynt allu codi eu pryderon yn uniongyrchol.

Rwyf hefyd yn cydnabod y pryder y gallai'r cyhoeddiad hwn gael effaith negyddol ar yr economi leol, yn enwedig canol tref Llanbedr Pont Steffan. Rwy'n cydnabod bod y Brifysgol wedi bod yn Llanbedr Pont Steffan ers dros 200 mlynedd, ar ôl cael ei sefydlu yn 1822, ac mae wedi chwarae rhan bwysig yng ngwead economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol y dref ers blynnyddoedd lawer. Mae'r Brifysgol yn glir nad yw'n cau campws Llambod ac yn nodi ei bod wedi ymrwymo i gadw prif ystâd campws Llambod. Rwy'n ymwybodol bod cyfnod o feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid ac â'r gymuned leol yn Llanbedr Pont Steffan bellach wedi dechrau, i nodi gweithgareddau cynaliadwy sy'n gysylltiedig ag addysg ar gyfer dyfodol y campws.

Rwy'n bwriadu parhau i fod mewn cysylltiad â'r Brifysgol wrth i'r cynlluniau fynd yn eu blaen.

Yn gywir,

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'V. Howells', with a long, sweeping horizontal line underneath.

Vikki Howells AS/MS

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

**P-06-1507 We call on UWTSD and the Welsh Government to create a viable, sustainable plan for the long-term future of Lampeter campus -
Correspondence from the Petitioner to the Committee, 04 March 2025**

Background information for Petitions Committee meeting 10/3/25

The university at Lampeter is Wales's oldest university; the 3rd oldest in England and Wales after Oxford and Cambridge. It is a globally significant institution of higher education. The decision to end undergraduate teaching at Lampeter marks a devastating blow not only to the Lampeter campus but to the cultural, historical, and educational heritage of Wales. UWTSD have allowed the closure of an institution that has shaped Wales's intellectual and cultural identity for nearly 200 years.

The decision has been framed as a financial necessity. We, the Lampeter Society, do not accept that narrative. The decline of Lampeter was not inevitable but engineered through successive cuts, neglect, and strategic missteps that reduced a once-vibrant institution to its current state. For decades, Lampeter has been deliberately and systematically stripped of its resources and identity. Fewer courses led to fewer students, which in turn justified further reductions - a clear and calculated process of managed decline.

The decision completely disregards the devastating economic and social impact on Lampeter and south Ceredigion. The 2008 HEFCW report explicitly warned that the closure of Lampeter would have a severe economic impact on the town and surrounding area. For a rural community like Lampeter, the university is not just an employer but a cultural and social lifeline.

Lampeter is more than a campus. It is an institution of global renown, a vital thread in the cultural fabric of Wales, and a symbol of resilience and intellectual excellence. Its closure represents a national scandal, and history will not look kindly on those who allowed this to happen.

The Lampeter Society calls upon UWTSD and the Welsh Government to develop a robust way forward that honours the institution's past while securing its future. Despite the current narrative, we believe it is certainly a matter for the Welsh Government. Not stepping in when the nation's Higher Education sector is struggling, and in some cases failing, is shortsighted and indeed contravening a precedent which has already been set.

The following are alternative proposals drawn up by the Lampeter Society for the Lampeter campus.

ALTERNATIVE PROPOSALS FOR THE LAMPETER CAMPUS

A strategic review of higher education in Wales is ultimately needed as the sector grapples with a nation-wide financial crisis with falling student demand; rising costs; tuition fee-value erosion; research being undertaken at a net loss; and an over-reliance on international student income. The solution to this crisis so far has been to cut costs by reducing or closing down departments and faculties – as is the case with UWTSD, Bangor University, University of South Wales and Cardiff University. However, education should not be seen as a cost burden but rather as an investment in the nation's future. What is ultimately needed is a global and integrated vision of the future and a planned approach to reform and consolidation of HE institutions in Wales. A world-class University of Wales with member branches and campuses would rationalise course distribution, encourage world class departments, attract globally recognised academics and would reduce competition between campuses/universities across Wales.

There are four **local business options** for Lampeter on the table. These are:

I - Positioning Lampeter as a leading institution in heritage-driven education and research excellence, developing interdisciplinary degree programmes combining humanities with practical and emerging fields, such as digital studies and sustainability

II – Offering a mainstream humanities degree teaching programme that focusses on popular subjects that the Lampeter Campus is noted for globally, and allied with the **Centre for Advanced Celtic Studies**, the **Welsh National College** and the prospective **National Welsh Language Learning Institute**. The Lampeter portfolio would include Celtic studies & the Welsh language; archaeology; geography; creative writing & English; religious studies & theology; ancient/medieval history & classics; philosophy; and Chinese studies. Programme delivery would be low-cost, with a small core academic and support staff and the use of visiting 'star' alumni lecturers to add pulling power and admin volunteers

III – Turning the Lampeter Campus into an enterprise hub for Mid-Wales, offering entrepreneurship undergraduate and postgraduate degree programmes that promote sustainable economic development and the concept of the green campus

NB – We believe the above options work alongside and support the Welsh Government's ***Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015***; widening access to participation and developing a cohesive and strengthened local community and economy.

IV – Leasing out part of the Lampeter campus to an international or Russell Group university, that is looking for a rural campus and an alternative approach

Lampeter's rural and community-oriented environment holds great advantages to non-traditional and neurodivergent students. Welsh universities are experiencing a quiet epidemic of student suicides; the University of South Wales alone had more than 10 suicides last year alone. The large university metropolis does not suit many young people; the mental health benefit of being able to study in a close knit friendly environment which Lampeter is uniquely able to offer cannot be underestimated.

Cyfyngu cynghorau Cymru i gynnydd o hyd at 2% ar y dreth gyngor bob blwyddyn

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Mawrth 2025
Petitions Committee | 10 March 2025

Cyfeirnod: SR2510747-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1508

Teitl y ddeiseb: Cyfyngu cynghorau Cymru i gynnydd o hyd at 2% ar y dreth gyngor bob blwyddyn

Geiriad y ddeiseb: Cyfyngu cynghorau Cymru i gynnydd o hyd at 2% ar y dreth gyngor bob blwyddyn, gan ddechrau ym mis Ebrill 2025. Roedd y cynnydd yn y dreth gyngor yn 2024 yn rhy uchel i bobl Cymru, ac nid yw cynyddu'r dreth gyngor uwchlaw'r gyfradd chwyddiant unwaith eto yn gynnydd teg i bobl Cymru.

1. Y cefndir


Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid a gaiff awdurdodau lleol, a hynny drwy'r Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig wedi'u hailddosbarthu. Yn 2025-26, bydd awdurdodau lleol, trwy'r setliad llywodraeth leol dros dro, yn cael tua £6.1 biliwn gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dyrannu dros £1.1 biliwn ar ffurf grantiau penodol, a thros £1 biliwn ar ffurf cyllid cyfalaf.



Yr awdurdodau lleol eu hunain sy'n codi gweddill yr arian sydd ei angen ar gyfer darparu gwasanaethau lleol. Yr elfen fwyaf arwyddocaol o'r cyllid hwn yw'r dreth gyngor, ond mae nifer o ddulliau eraill o gynhyrchu incwm hefyd, fel taliadau dewisol am wasanaethau hamdden, parcio a gwastraff masnachol.

Mae awdurdodau lleol wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch cynyddu eu treth gyngor ar gyfer 2025-26 i wneud iawn am rai o'r diffygion a amcangyfrifir yn eu cyllid. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi amcangyfrif y bydd pwysau cyllido o dros £550 miliwn ar awdurdodau lleol Cymru yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dangosodd CLILC yn ei thystiolaeth y pwysau cyllidebol, fesul gwasanaeth, a wynebir gan awdurdodau lleol dros y tair blynedd nesaf:

Pwysau cyllidebol fesul gwasanaeth, 2025-26 i 2027-28, £000



Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2024

2. Cynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor

Ar gyfartaledd, cynyddodd y dreth gyngor yn 2024-25 £122 (7.8%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer eiddo ym Mand D yng Nghymru. Cynyddodd praeseptau'r heddlu 7.1% (£23) ar gyfartaledd. Mae'r cynnydd cyfunol hwn wedi arwain at gynnydd o 7.7% (neu £145) ar gyfartaledd ym Mand D. Dyma'r cynnydd cyfunol uchaf yng nghyfraddau Band D ar gyfartaledd ers 2019-20 pan welwyd cynnydd o 6.6% (£99) ar gyfartaledd ar gyfer Band D.

Rhwng 2018-19 a 2024-25, mae cyfradd gyfunol Band D (y dreth gyngor a'r heddlu) ar gyfartaledd wedi cynyddu ychydig yn llai na 36%, a thros gyfnod o ddegawd (rhwng 2015-16 a 2024-25), mae wedi cynyddu dros 50%.

3. Terfynau'r dreth gyngor a'r fframwaith deddfwriaethol

Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfyngu ar gynnydd gormodol yng ngofynion cyllideb awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, yn dweud yn ei ymateb i'r ddeiseb fod 'Llywodraeth Cymru yn parchu ymreolaeth llywodraeth leol ac nid yw wedi ceisio capio'r dreth gyngor na'i chyfyngu yng Nghymru ers datganoli.'

Mae ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet yn mynd rhagddo i ddweud y canlynol:

Mae Llywodraeth Cymru yn sianelu cymaint â phosibl o'r arian sydd ar gael i mewn i'r Setliad Llywodraeth Leol heb ei neilltuo, er mwyn i awdurdodau lleol gael mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu cyllid yn unol â blaenoriaethau lleol.

3.1. Fframwaith deddfwriaethol i gyfyngu ar gynnydd gormodol

Y ddeddfwriaeth berthnasol yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992").

Mae Adran 52B o Ddeddf 1992 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gymryd camau yn erbyn awdurdod lleol os ydynt o'r farn bod gofynion ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod yn 'ormodol'.

"Gofynion y gyllideb" yw'r swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwariant disgwyledig yr awdurdod lleol (h.y. yr hyn y bydd angen ei wario i gyflawni ei swyddogaethau, arian grant y bydd yn rhaid ei ad-dalu i Weinidogion Cymru, arian i'w ddyrannu i gronfeydd wrth gefn) a'i incwm disgwyledig (h.y. yr arian y mae'r awdurdod yn disgwyl ei gael y flwyddyn honno, yn amodol ar rai eithriadau).

Mae adran 52B yn darparu bod yn rhaid iddynt lunio set o egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu a yw gofynion y gyllideb yn ormodol. Mae hefyd yn darparu bod yn rhaid i'r egwyddorion hyn (o leiaf) gynnwys cymhariaeth rhwng

gofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn dan sylw a'r gofynion ar gyfer blwyddyn gynharach.

Mae adran 52C yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n pennu "swm tybiannol" ar gyfer cyllideb awdurdod lleol, i'w ddefnyddio fel sail i gymharu'r flwyddyn dan sylw ac unrhyw flwyddyn flaenorol. Gall Gweinidogion Cymru bennu symiau tybiannol mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os yw swyddogaeth neu ffin wedi newid – a thrwy hynny, gellir gwneud cymhariaeth ddilys â gofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Gellir ei ddefnyddio hefyd i bennu swm tybiannol os na bennwyd gofynion y gyllideb ar gyfer blwyddyn gynharach.

Yn dilyn penderfyniad a wnaed drwy ddefnyddio'r egwyddorion sy'n ofynnol o dan adran 52B, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y swm a bennir gan awdurdod fel gofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn ormodol, mae adran 52D yn galluogi Gweinidogion Cymru i "ddynodi" neu "enwebu" yr awdurdod lleol hwnnw.

3.2. Awdurdodau Lleol Dynodedig

O dan adran 52E, os caiff awdurdod lleol ei *ddynodi*, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod o'r uchafswm y maent yn cynnig y dylai ei gyfrifo fel gofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn, a phennu'r uchafswm y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y gallai'r awdurdod ei gyfrifo fel ei ofynion ar gyfer y flwyddyn heb i'r swm hwnnw fod yn ormodol.

Yna, gall yr awdurdod lleol naill ai:

- dderbyn yr uchafswm dynodedig a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru; neu
- herio penderfyniad Gweinidogion Cymru.

Os na fydd yr awdurdod lleol yn llwyddo i herio'r uchafswm, gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi gorchymyn gorfodol i'r awdurdod lleol i sicrhau bod yr awdurdod yn cydymffurfio.

3.3. Awdurdodau Lleol Enwebedig

O dan adran 52L, os caiff awdurdod lleol ei *enwebu*, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod o'r swm y byddent wedi'i gynnig fel targed ar gyfer gofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn dan sylw pe bai'r awdurdod yn awdurdod *dynodedig*.

Ar ôl i awdurdod lleol gael ei enwebu, gall Gweinidogion Cymru benderfynu:

- *dynodi'r awdurdod* (gan ddilyn y weithdrefn yn adran 52E a amlinellir uchod); neu
- benderfynu ar y swm y maent yn cynnig y dylai'r awdurdod ei gyfrifo'n swm tybiannol yng nghyd-destun gofynion ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn.

Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybod i awdurdod lleol eu bod yn cynnig swm arfaethedig, mae gan yr awdurdod 21 diwrnod i naill ai:

- derbyn y swm a gynigiwyd gan Weinidogion Cymru; neu
- herio'r swm a gynigiwyd a gofyn i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad.

Os caiff y swm a gynigir ei herio gan yr awdurdod lleol a bod y rhesymau a roddwyd dros yr her yn cael eu derbyn, gall Gweinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad

3.4. Dehongli'r ddeddfwriaeth

Er nad yw'r darpariaethau ym Mhennod IVA o Ddeddf 1992 yn sôn yn benodol am y dreth gyngor, teitl y bennod sy'n ymdrin â nhw yw "Limitations of Council Tax and Precepts". Mae Papur Briffio Tŷr Cyffredin ar gapio'r dreth gyngor a gyhoeddwyd yn 2004 (Pennod III yn benodol) yn rhoi rhywfaint o gefndir ynghylch pam mae'r adran hon o'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r pŵer i Weinidogion gapio'r dreth gyngor.

Mae Gweinidogion Cymru, yn y gorffennol, wedi amlinellu sut y gallent fod yn barod i ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i gyfyngu ar unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor os ystyrir bod y cynnydd yn ormodol. Er enghraifft, yn ei datganiad ar Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2014-15 (16 Hydref 2013), dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol ar y pryd (Lesley Griffiths AS) y canlynol:

Wrth alluogi'r Awdurdodau Lleol i benderfynu lefel y dreth gyngor yn lleol, rwy'n cynnig hyblygrwydd iddynt reoli eu cyllidebau. Nid yw'r awdurdodau cyfatebol yn Lloegr sy'n destun cyfyngiadau yn sgil rhewi'r dreth gyngor yn mwynhau'r un hyblygrwydd. Fodd bynnag, rwyf wedi datgan yn hollol glir fy mod yn fodlon defnyddio'r pwerau capio sydd ar gael imi os ceir cynnydd gormodol.

Cafwyd datganiad tebyg yn 2015 gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, a hynny yn ei lythyr yn cyd-fynd â Setliad Terfynol Llywodraeth Leol 2015-16:

Rwyf yn barod i ddefnyddio'r pwerau capio sydd ar gael imi os byddaf yn credu bod y cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor yn ormodol. Rwyf hefyd yn disgwyl i bob awdurdod gymryd yr holl ffrydiau ariannu i ystyriaeth wrth ystyried darparu gwasanaethau a phennu ei gyllideb ar gyfer y Dreth Gyngor.

Er hyn, yn ei ymateb i'r ddeiseb hon, safbwynt Ysgrifennydd presennol y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yw bod gan Lywodraeth Cymru "berthynas â llywodraeth leol sy'n seiliedig ar gydweithredu a pharch" a'u bod:

o'r farn bod y gallu i bennu cyllidebau a'r dreth gyngor yn agwedd hanfodol ar ddemocratiaeth leol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref MDFWL/00109/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

17 Chwefror 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am ysgrifennu cyn ystyriaeth gychwynnol y Pwyllgor Deisebau o'r ddeiseb P-06-1508, "Cyfyngu cynghorau Cymru i gynnydd o hyd at 2% ar y dreth gyngor bob blwyddyn, gan ddechrau ym mis Ebrill 2025". Rwy'n croesawu'r cyfle i egluro safbwynt Llywodraeth Cymru.

Mater i bob awdurdod lleol a'i aelodau etholedig yw'r cyfrifoldeb dros bennu cyllideb flynyddol yr awdurdodau lleol ac, fel rhan o hynny, benderfyniadau ynghylch y dreth gyngor. Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru y rhyddid democrataidd i bennu ei dreth gyngor ei hun mewn modd sy'n diwallu anghenion a blaenoriaethau lleol, sy'n golygu eu bod yn atebol i'r etholwyr lleol am y penderfyniadau y maen nhw'n eu gwneud. Er na fydd croeso i unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor ymhlith y trethdalwyr lleol, mae'r dreth yn creu ffynhonnell sylweddol o gyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt bob dydd, megis ysgolion a gofal cymdeithasol.

Rhaid i awdurdodau lleol daro cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau hanfodol a chyfyngu'r pwysau ariannol ar aelwydydd, yn enwedig yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n effeithio ar lawer o aelwydydd. Rwy'n croesawu'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori y mae awdurdodau lleol yn ei wneud gyda chymunedau ar gynigion cyn gwneud penderfyniadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn parchu ymreolaeth llywodraeth leol ac nid yw wedi ceisio capio'r dreth gyngor na'i chyfyngu yng Nghymru ers datganoli. Mae gennym berthynas â llywodraeth leol sy'n seiliedig ar gydweithredu a pharch at gyfrifoldebau ein gilydd. Rydym o'r farn bod y gallu i bennu cyllidebau a'r dreth gyngor yn agwedd hanfodol ar ddemocratiaeth leol.

Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru yn sianelu cymaint â phosibl o'r arian sydd ar gael i mewn i'r Setliad Llywodraeth Leol heb ei neilltuo, er mwyn i awdurdodau lleol gael mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu cyllid yn unol â blaenoriaethau lleol. Y flwyddyn nesaf bydd awdurdodau lleol Cymru yn derbyn £6.1 biliwn (dros dro) gan y Setliad Llywodraeth Leol i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Bydd cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn cynyddu 4.3%. Edrychwn ymlaen at gwblhau manylion y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol yn nes ymlaen y mis hwn. Rwy'n gwneud popeth o fewn fy ngallu i gefnogi llywodraeth leol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 60
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n deall bod yr amgylchiadau ariannol presennol yn heriol iawn i lawer o aelwydydd ledled Cymru. Mae'n bwysig cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru nifer o gynlluniau i helpu pobl sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau treth gyngor, yn ogystal ag ystod o esemptiadau a gostyngiadau. Rydym yn parhau i ddarparu £244 miliwn y flwyddyn yn gyson i helpu awdurdodau lleol i weithredu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae tua 260,000 o aelwydydd agored i niwed ac incwm isel - tua un o bob pump aelwyd yng Nghymru - yn derbyn cymorth gyda'u biliau treth gyngor. Rwy'n annog unrhyw un sy'n cael trafferth talu ei fil treth gyngor i gysylltu â'i awdurdod lleol cyn gynted â phosibl, ac i ofyn am gyngor arbenigol drwy [Advicelink Cymru](#).

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i aelodau'r Pwyllgor wrth iddynt ystyried y ddeiseb.

Yn gywir,



Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

P-06-1508 Limit the Welsh Councils to a maximum increase of 2% on Council tax each year, starting in April 2025 – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 21 February 2025

Good Afternoon

I write in response to your email asking for my view on the attached document you sent.

I feel that the document only passed the buck and is not taking responsibility for the increase in council tax ,we as tax payers are going to experience again this April.

The Welsh government has the power to bring in legislation to force council's to limit the increase to council tax to inflation only.

The increases that are due to come in in April are way above inflation as they where for 2024/2025.

The politicians do not have any idea how these increases affect the population of Wales.

It is all well and good saying you have funds to help,but if council's managed there finances efficiently there would be no need to increase council tax by way over inflation.

Also there needs to be a fundamental change in how our council's are ran.

We need an amalgamation of Council's to bring down costs.

To sum up council's have forgotten they work for us not the other way around, they can't keep using us as cash cows,it is unsustainable .

Regards

Stuart Phillips.

P-06-1365 Ail-agor llinellau rheilffordd i gysylltu gogledd a de Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Elfed Wyn ap Elwyn, ar ôl casglu cyfanswm o 12,936 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae'r daith rhwng gogledd a de Cymru bob amser yn un hir, yn enwedig wrth ddefnyddio'r rheilffyrdd. Mae teithio ar y trên rhwng Bangor a Chaerdydd yn golygu bod rhaid i rywun fynd y tu allan i Gymru i allu cyrraedd pen y daith.

Mae angen i'r rheilffyrdd gysylltu Cymru yn fewnol. Y cynllun ar gyfer gwneud hyn fyddai ail-agor llinellau Bangor – Afon-wen ac Aberystwyth i Gaerfyrddin, ac integreiddio'r rhain â lein y Cambrian, a'r lein o Gaerfyrddin i Gaerdydd.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Dyma'r hyn y mae'r ddeiseb hon yn gofyn yn benodol amdano:

- Astudiaeth Gwmpasu a Dichonoldeb ar gyfer y lein rhwng Bangor ac Afon-wen
- Ymrwymiad i wario unrhyw arian a geir gan San Steffan ar gyfer y rheilffyrdd ar adfer llinellau rheilffyrdd
- Datblygu glasbrint o'r llwybr rheilffordd rhwng Bangor a Chaerdydd o ran y llwybr arfaethedig
- Edrych ar lwybrau eraill o fewn Cymru y byddai eu hailagor yn fuddiol ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol

Os ydym am ddatblygu seilwaith Cymru, a defnyddio dull gwyrddach o deithio, byddai adfer ac ailagor y rheilffyrdd hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir a fyddai hefyd o fudd nid yn unig i bob cymuned ar hyd y rheilffordd, ond i Gymru fel gwlad.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gornllewin Cymru

**P-06-1365 Ail-agor llinellau rheilffordd i gysylltu gogledd a de Cymru -
Gohebiaeth gan y deisebydd, 03 Mawrth 2025**

Noswaith dda,

Diolch am f'atgoffa i

Dyma fy sylwadau, sydd yn dod gan aelodau o bwyllgor Traws Linc Cymru.

Dyma adroddiad strategol a grewyd gan Traws Linc Cymru sy'n gosod yr achos i ailagor llinell dren Afon-wen i Fangor / Aberystwyth i Gaerfyrddin:

<https://trawslincymru.org.uk/en/the-strategic-case-for-re-opening-the-aberystwyth-to-carmarthen-and-afon-wen-to-bangor-railways-2020/>

Mae Traws Linc Cymru'n gofyn am astudiaeth ddichonoldeb newydd gan fod yr adroddiad strategol wedi dod i'r casgliad bod llawer o ddiffygion yn adroddiad Mott Macdonald. O ran Caerfyrddin i Aberystwyth.

Hefyd rydym yn dymuno cael astudiaeth ddichonoldeb lawn a chynhwysfawr gael ei chynnal ar gyfer Aberystwyth-Caerfyrddin yn benodol, yn seiliedig ar gasgliadau yr adroddiad strategol.

Rydym [fel Traws Linc Cymru] yn dal i sefyll wrth ei sylwadau a'i gasgliadau o blaid rheilffyrdd trwm er gwaethaf yr astudiaeth ddichonoldeb ddiweddar, ac eisiau gweld astudiaeth pellach o hyn ar linell Afon-wen i Fangor.

Diolch yn fawr,

P-06-1380 Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan STAND NW CIC, ar ôl casglu 1,618 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Nid yw pob anabledd yr un fath, mae rhai yn para gydol oes, sy'n golygu nad ydynt yn newid dros amser.

Yn anffodus, mae'r canllawiau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion sydd â diagnosis gydol oes, sy'n cynnwys anableddau dysgu neu anghenion dwys a chymhleth, ailymgeisio am fathodyn glas bob tair blynedd. Gall y broses hon fod yn rhwystredig iawn, mae'n cymryd llawer o amser i unigolion a'u gofalwyr ei chwblhau ac mae'n canolbwyntio ar agweddau negyddol ar allu unigolyn.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i ymgymryd â gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n nodi y caniateir i bobl ag anableddau gael eu trin yn fwy ffafriol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir, i sicrhau cyfle cyfartal.

Credwn y dylid diweddarau'r broses i roi mwy o gymorth i'r rhai ag anableddau drwy wneud bywyd yn haws i'r rhai sydd â chyflyrau gydol oes. Rydym, gan hynny, yn cynnig newid, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y broses bresennol o wneud cais am fathodyn glas, i roi'r hyn sy'n iawn i bobl anabl a'u cynorthwyo.

Byddai'r newid hwn yn caniatáu i bobl gael bathodyn glas sy'n para gydol oes os oes ganddynt gyflwr meddygol gydol oes nad oes disgwyl iddo wella, ac os yw eu nodiadau iechyd cysylltiedig yn cadarnhau hynny.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dyffryn Clwyd
- Gogledd Cymru



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Julie Meese
Swyddog Cymunedol, Ymgysylltu a Chyfranogiad
Conwy a Sir Ddinbych

Julie Meese julie@standnw.org

04 Chwefror 2025

Annwyl Julie

Deiseb P-06-1380 “Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes”

Diolch i chi am eich e-byst ataf i a'm swyddogion: mae'r llythyr hwn yn ymateb i'r holl ohebiaeth yr ydych wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am yr amser yr ydych wedi'i roi i gwrdd â'm swyddogion, yn fwyaf diweddar ar 7 Ionawr 2025 â Caroline Thomas AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau. Amgaeaf nodiadau'r cyfarfod hwnnw er gwybodaeth i chi.

Rwy'n gwerthfawrogi eich bod yn rhannu eich profiadau ac yn esbonio pam 'rydych yn teimlo ei bod yn bwysig cynnig Bathodynau glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes. Er fy mod yn deall eich safbwynt, anghenion symudedd yn hytrach na diagnosis meddygol sy'n pennu cymhwysedd Bathodyn Glas, gan y gall symudedd amrywio hyd yn oed ymhlith y rhai â chyflyrau tebyg. Gydag adnoddau cyfyngedig Llywodraeth Cymru, ni allaf fynd ar drywydd deddfwriaeth i wneud Bathodynau Glas yn rhai gydol oes. Gydag adnoddau cyfyngedig Llywodraeth Cymru, ni allaf fynd ar drywydd deddfwriaeth i wneud Bathodynau Glas yn rhai gydol oes. Yn ogystal, mae'n bwysig gwarchod tegwch ac effeithiolrwydd y cynllun.

Mae gan awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r cynllun ddisgresiwn ar hyn o bryd i benderfynu a yw nam ymgeisydd yn annhebygol o wella. Mewn achosion o'r math yma, mae modd iddynt symleiddio'r broses o geisio am fathodyn glas drwy'r broses ble 'nid oes angen asesiad pellach' (NfR). Mae hyn yn caniatáu i ymgeiswyr adnewyddu eu bathodyn trwy ddarparu prawf adnabod, preswylad a llun cyfoes.

Rwy'n cydnabod nad yw llwybr NfR bob amser yn gweithio'n esmwyth i ymgeiswyr. I fynd i'r afael â hyn, bydd fy swyddogion yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol i wella'r canllawiau a symleiddio'r broses. Byddwn yn archwilio gydag awdurdodau lleol y potensial ar gyfer Cod Ymarfer gwirfoddol i nodi'n gliriach y gwasanaeth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl. I'r rhai na allant ddefnyddio'r System Digidol Bathodyn Glas ar-lein, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod systemau amgen ar waith i ddarparu cymorth ychwanegol.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Annibynnol yng Nghymru i gynorthwyo awdurdodau lleol gydag asesiadau ac i ddarparu hyfforddiant parhaus i aseswyr. Yn ogystal, byddaf yn adolygu argymhellion y Prosiect Ymchwil Bathodyn Glas sydd ar ddod ac yn bwrw ymlaen ag unrhyw welliannau angenrheidiol.

Mae'r meini prawf cymhwysra ar gyfer bathodyn glas wedi bod yn destun llawer o adolygiadau, adroddiadau ac ymgynghoriadau a rheoliadau ers 2002.

Cynhaliwyd ymchwiliad gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd yn 2019 i'r 'Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwysra a Gweithredu'. Mae'r ymatebion cyhoeddus i'w gweld yma:

[Ymateb Lywodraeth Cymru ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwysra a Gweithredu](#)

[Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwysra a Gweithredu](#)

Mae swyddogion wedi gwneud gwaith sylweddol hyd yma yn dilyn yr Ymchwiliad. Ar hyn o bryd mae dau argymhelliad sy'n dal i gael eu datblygu sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil bathodyn glas. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud ag adolygiad o'r meini prawf cymhwysra ar gyfer bathodyn glas gan ystyried a oes amodau pellach a ddylai gymhwyso person yn awtomatig i gael bathodyn glas, a yw'r broses ar gyfer cynnal asesiad pellach yn ddigon cadarn i ymateb i anghenion amrywiol y rheini sy'n gwneud cais, ac a yw anghenion y rhai sy'n cael diagnosis o ganser yn cael eu diwallu'n ddigonol. Mae'r ail argymhelliad yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn diweddarau ei chanllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod y trefniant presennol o gyflymu ceisiadau gan y rhai sydd â diagnosis terfynol yn dod yn orfodol.

O ran y materion eraill a godwyd gennych, rydym yn cydnabod nad yw llawer o orsafoedd rheilffordd yn gwbl hygyrch ac y gellid gwella cyfleusterau bysiau ar gyfer pobl anabl. Er bod rheoliadau seilwaith rheilffyrdd a chynllun bysiau wedi'u cadw i Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r diwydiannau rheilffyrdd a bysiau i wella hygyrchedd. Ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd yr ydym yn berchen arno, megis Llinellau Craidd y Cymoedd, rydym yn darparu mynediad heb risiau ym mron pob gorsaf.

Rwy'n deall eich pryderon ynghylch parcio Bathodyn Glas yn cael ei ddisodli gan fannau parcio cerbydau trydan, dyrannu lleoedd parcio mewn meysydd parcio, a threfniadau ar gyfer digwyddiadau. Mae'r materion hyn wedi'u codi gyda'r awdurdodau lleol, a rhannaf eich awydd am ateb sy'n sicrhau hygyrchedd i bawb. Fel yr awdurdod parcio lleol, nhw sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â'r materion hyn, a byddwn yn eich annog i barhau â'r drafodaeth gyda nhw i sicrhau bod eich pwyntiau'n cael eu hystyried yn llawn.

Fe wnaethoch sôn y gallai cynlluniau Teithio Llesol roi gyrrwyr anabl dan anfantais drwy gyfyngu ar barcio'n agos at siopau i'r rhai mewn cadeiriau olwyn. Mae'r enghraifft a ddarparwyd gennych, ynglŷn â chynllun arfaethedig ym Mae Colwyn, wedi'i nodi, ac rwyf wedi gofyn i swyddogion godi eich pryderon gyda Chyngor Conwy i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn ofalus.

Yn olaf, mae fy swyddogion wedi cael cyfle i gwrdd â chi a'ch deisebwyr, i wrando ar eich barn, ac ystyried yn ofalus y profiadau byw a rennir. Ar hyn o bryd, nid wyf yn credu bod angen cyfarfodydd pellach ynghylch eich deiseb, ond nodwch fod eich pryderon wedi'u nodi'n llawn a'u gwerthfawrogi. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gysylltu â chi eto unwaith y byddwn wedi cael cyfle i weithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu amserlenni cliriach ar gyfer y camau nesaf a ddisgrifir uchod.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, Gareth Davies AS, Janet Finch-Saunders AS, Ll' 1r Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Darren Millar AS, a Jack Sargeant AS.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken Skates', with a stylized flourish extending to the right.

Ken Skates AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

Nodiadau cyfarfod rhithwir gyda deisebwyr STAND Gogledd Cymru – 7/1/25.

Deiseb Bathodyn Glas – P06 - 1380

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Ionawr 2025 @10am

Yn bresennol

Julie Meese, Swyddog Cymunedol, Ymgysylltu a Chyfranogiad - Conwy a Sir Ddinbych (JM)

2 Ddeisebwyr gyda phrofiad byw Kirsty a Nige

Caroline Thomas AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau (CT)

Chris Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr – Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth (CW)

Ian Bradfield (IB)

Sue Blunt (SB)

Lorraine Walsh (LW)

Pwrrpas

I ddiweddaru'r deisebwyr yn dilyn trafodaethau gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 3 Rhagfyr, yn dilyn cyfarfod gyda'r deisebydd a rannodd ei profiadau byw ar 4 Tachwedd.

Cadarnhaodd CW fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Ysgrifennydd y Cabinet a bod y tîm wedi rhannu'r profiadau byw ag ef a phwyntiau allweddol y ddeiseb.

Dywedodd CW fod Ysgrifennydd y Cabinet yn awyddus i wneud gwahaniaeth i ymgeiswyr am fathodynau glas ond ei fod wedi penderfynu peidio â gwneud newidiadau deddfwriaethol i hyd y bathodynau. Mae ffactorau risg a materion adnoddau ynghlwm â hyn. Fodd bynnag, hoffai i'r Cynllun Bathodyn Glas weithio'n dda ac fel y dylai. Mae'n cydnabod bod lle o hyd i wella gwasanaeth a chysondeb y cynllun ar draws awdurdodau lleol a gwelliannau gyda 'Nid oes angen asesiad pellach' (NfR) o dan y meini prawf cymhwysra asesu pellach. Dylid cefnogi ymgeiswyr sydd â'r angen mwyaf a allai fod angen cymorth pellach i wneud cais/ailymgeisio am fathodyn. Hoffai'r Ysgrifennydd y Cabinet i arweinwyr polisi i barhau i weithio gydag awdurdodau lleol i annog cysondeb a rhannu arfer gorau. Un ffordd o bosibl yw datblygu cod ymarfer a gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru gofrestru ar gyfer hyn.

Ymatebodd JM a deisebwyr eraill yn unigol yn datgan eu bod yn siomedig gyda'r canlyniad hwn a faint o amser yr oedd wedi'i gymryd hyd yma ond roeddent yn ddiolchgar bod CW wedi diweddaru'r Ysgrifennydd y Cabinet.

Dywedodd CW mai'r camau nesaf fyddai i'r Ysgrifennydd y Cabinet ysgrifennu at y deisebwyr i gadarnhau ei benderfyniad ac anfon copi at y Pwyllgor Deisebau.

Nodiadau cyfarfod rhithwir gyda deisebwyr STAND Gogledd Cymru – 7/1/25.

Dywedodd CT fod hwn yn fater cyfiawnder cymdeithasol yr oedd hi hefyd wedi'i godi gyda Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip. Sylwodd fod ymgeiswyr bathodyn glas yn ei chael hi'n anodd, ac roedd hi'n anghytuno â'r broses. Roedd angen cryfhau'r NfR ac roedd angen i awdurdodau lleol roi mwy o gymorth. Roedd hi'n pryderu na chafodd yr NfR ei gymhwyso i ymgeiswyr yn seiliedig ar Daliad Annibyniaeth Personol (PIP). Dywedodd CT ei bod wedi helpu ymgeisydd oedd wedi derbyn ffi o £30 am wybodaeth gan nad oeddent yn gallu dod o hyd i'r llythyr diagnosis gan ei meddyg teulu. Dywedodd CT hefyd fod yr Awdurdodau Lleol yn rhy llym a dylent fod yn fwy trugarog. Dylid defnyddio NfR yn amlach.

Esboniodd SB y meini prawf cymhwysra ar gyfer bathodyn glas. Mae cymhwysra "Heb asesiad pellach" (awtomatig) yn seiliedig ar ddyfarniadau uwch o rai budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Byddai'r derbynwyr hyn eisoes wedi cael asesiad trylwyr gyda'r DWP. Mae pobl sydd â nam difrifol ar eu golwg neu sydd wedi'u cofrestru'n ddall gydag ardystiad priodol hefyd yn gymwys o dan y llwybr awtomatig.

Mae cymhwysra "asesiad pellach" (dewisol) ar gael o dan feini prawf "symudedd a gwybyddol". Diben yr asesiad pellach hwn yw sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gadarn ac yn gyson. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd dros ddwy flwydd oed ac sy'n dod o fewn un neu fwy o ddisgrifyddion penodol:

- "Sydd ag anabledd parhaol a difrifol. Mae hyn y golygu nad yw'n gallu cerdded neu'n cael anhawster mawr i gerdded.
- Yn gyrru cerbyd yn rheolaidd ac mae ganddynt nam yn y ddwy fraich ac nid ydynt yn gallu gweithredu neu'n cael anhawster sylweddol wrth weithredu yr holl fathau o offer parcio neu rai mathau o offer parcio.
- Fod ffurflen SR (rheolau arbennig) 1 (DWP) ganddynt"

Mae disgrifyddion ychwanegol ar gyfer plant o dan dair blwydd oed, sy'n ymwneud â bob amser fod yn agos at gerbyd i gael triniaeth feddygol a all achub bywyd ar gyfer y cyflwr hwnnw neu er mwyn iddo allu teithio'n gyflym yn y cerbyd i rywle y gellir rhoi triniaeth o'r fath. Neu bod angen offer meddygol mawr na ellir ei gludo gyda'r plentyn heb anhawster wrth law bob amser.

Cadarnhaodd SB fod y meini prawf cymhwysedd gwybyddol yn berthnasol i bobl sy'n ei chael hi'n anodd cynllunio a dilyn taith gyfarwydd i'r fath raddau fel bod angen goruchwyliaeth gyson arnynt. Roedd enghreifftiau'n cynnwys awtistiaeth, Alzheimer neu ddementia, strôc, anableddau dysgu, iechyd meddwl ac anafiadau i'r pen. Roedd cymhwysra yn dal i fod yn seiliedig ar symudedd ond byddai llawer o bethau'n cael eu hystyried gan gynnwys peidio â bod yn ymwybodol o berygl. Nodwyd hefyd bod y bathodyn glas yn seiliedig ar symudedd ac nid ar gyflyrau meddygol. Mae llawer o bobl yn cael diagnosis o gyflyrau meddygol ond nid i'r graddau ei fod bob amser yn effeithio ar eu symudedd mewn bywyd ac yn aml byddai angen i rai cyflyrau meddygol gynyddu i wneud i symudedd rhywun i gyrraedd y pwynt pan fyddent yn gymwys i gael bathodyn glas.

Fe wnaeth SB gydnabod y gallai fod angen cymorth a chefnogaeth pellach ar rai ymgeiswyr os nad ydynt yn gallu gwneud cais ar-lein neu os na allant ofyn i deulu

Nodiadau cyfarfod rhithwir gyda deisebwyr STAND Gogledd Cymru – 7/1/25.

neu ffrindiau i'w cefnogi. Bydd y tîm yn gweithio gydag awdurdodau lleol i archwilio cymorth pellach y gallai fod ei angen yn enwedig lle mae rhai yn ei chael hi'n anodd.

Rhannodd JM siom a gofynnodd am amserlenni ar gyfer awdurdodau lleol yn ymrwymo i god ymarfer a diweddariadau ar gamau gweithredu ac amserlenni.

Rhannodd deisebydd arall Nige - ei siom a'i bryderon a'i rwystredigaethau o'r rhai sy'n gwneud cais am fathodyn. Cododd arbedion ariannol gyda cheisiadau a chysondeb â systemau sy'n prosesu'r rhain. Roedd yn falch bod lleoedd maes parcio wedi'u codi ac yn aml roedd lleoedd parcio presennol yn erydu ac nid ydynt yn cael eu cynnal.

Ailadroddodd y deisebydd KH ei phryderon am y cynllun ac wrth orfod ailymgeisio a'i phrofiad o oedi wrth ailasesu PIP a'r pryder o beidio â chael bathodyn glas i'w ddefnyddio bob dydd.

Cyfeiriodd CW at bryderon a phrofiadau eraill a godwyd yn flaenorol gan rai o'r deisebwyr ar barcio a dywedodd mai mater i awdurdodau lleol oedd y rhain. Mae hyn wedi cael ei rannu ag awdurdodau lleol. Mae materion a phryderon eraill a godwyd ar hygyrchedd gyda rheilffyrdd a bysiau yn fater i Lywodraeth y DU gan nad oedd llawer o'r pryderon a godwyd yn faterion datganoledig i Weinidogion yng Nghymru.

Dywedodd SB fod llawer o'r pryderon a rennir wedi cael eu codi o'r blaen gan rhanddeiliaid a phobl â phrofiad byw yn y grŵp Tasglu Hawliau Anabledd a oedd â sawl ffrwd waith, un ohonynt yn drafnidiaeth.

Daeth CW â'r cyfarfod i ben drwy ddweud y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl y cyfarfod ac yn gofyn iddo ysgrifennu at y brif ddeisebydd, JM, i gadarnhau ei benderfyniad. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod Ysgrifennydd y Cabinet yn awyddus i wella pethau ac i wneud gwahaniaeth a'i fod yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr adborth a rannwyd gan y rhai â phrofiadau byw.

P-06-1380 Make Blue badge Applications Lifelong for individuals who have a lifelong diagnosis - Correspondence from the Petitioners to the Committee, 03 March 2025

Ken Skates states 04th February 25

1. With the limited resources of the Welsh Government, I cannot pursue legislation to make Blue Badges lifelong
2. Blue Badge eligibility is determined by mobility needs rather than medical diagnoses
3. It is important to protect the scheme's fairness and effectiveness
4. Local authorities administering the scheme currently have the discretion to determine if an applicant's impairment is unlikely to improve. In such cases, they can streamline the application process through the "Not for Reassessment" (NfR) route
5. I acknowledge that the NfR route does not always work smoothly for applicants. To address this, my officials will continue collaborating with local authorities to enhance the guidance and streamline the process. We will explore with local authorities the potential for a voluntary Code of Practice
6. The Welsh Government will also maintain funding for the Independent Advisory Service in Wales to assist local authorities with assessments and to provide ongoing training for assessors.

1. As Ken states 'The eligibility criteria for a blue badge has been subject to many reviews, reports and consultations and regulations since 2002', our findings reveal the same issues are still being raised and little progress has been made, this is costing the Government, both in terms of time and money, to continue applying temporary fixes to a system that is clearly not working. A blue badge is a lifeline, offering freedom and independence, allowing individuals to experience a sense of normality. Yet, obstacles remain, making it harder for those who depend on it, to access the support they desperately need.
2. Ken states eligibility is determined by mobility needs rather than medical diagnosis, what about Severe Cognitive Impairment, this is also on the eligibility criteria and seems to be overlooked
3. Protecting the scheme's fairness and effectiveness- The current scheme does not show fairness or effectiveness with the constant barriers faced by individuals when trying to apply for a blue badge, please see attached, a parents renewal application experience, a parent that had discussed the 'Not for reassessment' award, it had been verbally agreed and a note to be put on file, but when actually renewed was told " Our system does not allow us to action her badge for not for reassessment under the DLA criteria only when it's applied under walking disability or cognitive reasons – this

person is severely cognitively impaired and on the learning disability register. How is this fair or effective, this is only one example

Please see Local Authorities questions and statement 'There are no technical capabilities in place within the system for this this to be highlighted automatically when an assessor accesses an applications account e.g. no 'pop up' box highlighting 'not for reassessment'

4. How can local authorities use discretion to determine if an applicant's impairment is unlikely to improve when they don't have formal /mandatory /medical training (enforceable, not awareness) please see FOI
5. Not for Reassessment /NFR is no where to be seen in the guidance – it is referenced under **Streamlined processes** - *Where the local authority is satisfied that an applicant will permanently meet the eligibility criteria, the local authority is able to mark their records as such to shorten the 'renewal' process when their badge expires. This will be the case where a person clearly meets the criteria and their impairment will not improve, such as a double amputee. In such cases the applicant will have a simplified renewal process, only needing to supply evidence of their identity, residence and a photograph. They will still be expected to sign the declaration form.*

It is not mentioned in the booklet [Who is eligible for a Blue Badge?](#), however 'eligible without further assessment' can be seen. The language needs to be clearer.

At the beginning of our petition Lee Waters was Cabinet secretary for Transport, in a letter to Mark Isherwood on 15th January 2024 he stated ' Local authorities can decide if a blue badge should be awarded for life ' however WLGA state ' As there is a requirement to renew badges every three years, we do not believe there to be any lifelong badges'

Nothing is clear, you can understand why this can cause confusion, so many mixed messages. Many people are not aware NFR exists, this language is not used in any documentation. When people are now aware (petitioners) of NFR, the process is definitely not streamline, clearer language and more consistent communication is needed.

6. The Welsh Government will also maintain funding for the Independent Advisory Service in Wales to assist local authorities with assessments and to provide ongoing training for assessors.
 - a. Training, Lee Water in a letter to Jack Sargeant on January 23rd, 2024 Stated *'The Welsh Government's guidance for local authorities on how to deliver the Blue Badge scheme recommends that all members of staff who deal regularly with applicants and badge holders should receive disability and equality awareness training
However, this guidance is non-statutory and we are unable to direct local authorities to provide specific training for individual staff. In 2020, my officials*

held a workshop on the social model of disability for local authority staff dealing with blue badge applications'

As you can see training is non-statutory – not enforceable and when we requested data on who attended workshops, Lee could not provide this I refer to point 4, if training is non enforceable / non statutory how can decisions be made to determine if an applicant's impairment is unlikely to improve, sure they aren't qualified to do so.

- b.** No Appeals Process The booklet "Who is eligible for a Blue Badge?" states on the last page that "The local authority's decision on eligibility is final" in bold, which can be intimidating for readers. This language may discourage individuals from seeking further explanation or pursuing the application process, as they might assume there is no way to challenge the decision. Additionally, the booklet does not mention the availability of the Independent Advisory Service

The Equality Act 2010 states it allows for the better or more favourable treatment of people with impairments based on the evidence given, to provide equality of opportunities.

Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 Participation and Engagement: The Act emphasises the importance of involving all people, including those with disabilities, in decision-making processes that affect their lives, **ensuring that their voices are heard and valued.**

Social justice is the view that everyone deserves equal economic, political, and social right and opportunities

A quote from one of our *petitioners* 'Someone listening to you can share your worries and burdens, someone hearing you and understanding they can make an impact.'

Petitioner's do not feel heard

Change is needed

- Listen to individuals with lived experiences, act on the feedback they provide, and collaborate to implement meaningful change
- Award lifetime badges or extend duration
- All local authorities implement the scheme in the same way and through the same departments.
- Training and code of conduct should be mandatory, not optional
- Use clear language in communications, such as booklets, guidelines, and other materials.
- Introduce an Appeal process

Blue badge Petition

Parents response to Ken Skates Letter dated February 4th 2024 and WGLA and 2019 report

In response to Ken's Letter. At the start of his letter he states that a blue badge is 'determined by mobility needs rather than medical diagnosis'. Ken makes no mention of any conditions of cognitive impairment that would put someone in danger. This makes me question if he understands the full independence a badge gives to an individual with various disabilities, not just those with mobility struggles.

Looking at the 'Written Statement: Eligibility and Implementation' report and highlighting a few recommendations that stood out to me.

Recommendation 7- for all staff who undertake blue badge assessments to be trained and apply the social model of disability- REJECTED. The blue badge helps remove a large barrier for many disabled people who are trying to access the local community, gain independence and some normality in what could be an ever changing new world for them. If staff undertook a small amount of training to understand the barriers disabled people faced this could make a huge impact on the application process.

Recommendation 8- Excellent news that this changed from REJECTED to accept in principle. However, what has happened since the report to improve things? The Welsh government should be pushing the UK government to make public transport inclusive. It is encouraged to use public transport yet it is inaccessible to many.

Recommendation 9- there is still no official Appeals process, meaning that if someone is rejected: for a variety of reasons, they have to provide more evidence or take matters further. This in turn can cause excess stress, worry and isolation.

Recommendation 13- the Welsh Government works with the WLGA to develop a process to enable those suffering with a life-long or deteriorating condition to renew their blue badge automatically, without further assessment. - REJECTED on the grounds of Not for reassessment.. If we look at the response from the WLGA they have NO belief that anyone has a lifelong badge. This shows that not for reassessment doesn't work. Regardless of condition you are required to reapply for a badge every 3 years.

